**Cofnodion Cyfarfod o PWYLLGOR CYDLYNU TROSOLWG A CHRAFFU a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor - Penmorfa ddydd Dydd Mercher, 23 Tachwedd 2022**

**PRESENNOL:** Y Cynghorydd Keith Evans (Cadeirydd), y Cynghorwyr Wyn Evans, Marc Davies, Gwyn Wigley Evans, Rhodri Evans, Geraint Wyn Hughes, Ceris Jones a Caryl Roberts.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet.
Y Cynghorwyr Catrin M S Davies ac Alun Williams, Aelodau Cabinet.

**CYNGHORWYR YN BRESENNOL NAD YDYNT YN AELODAU O'R PWYLLGOR:**
Y Cynghorydd Paul Hinge, Aelod Eiriolwr dros y Lluoedd Arfog.
Y Cynghorydd Gareth Lloyd a'r Cynghorydd Euros Davies.

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:**
Diana Davies, Rheolwr Corfforaethol: Partneriaethau a Pherfformiad; Rob Starr, Rheolwr Perfformiad ac Ymchwil; Naomi McDonagh, Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil Posibl; Cathryn Morgan, Rheolwr Cydraddoldeb a Chynhwysiant; Geraint Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth; Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyfreithiol a Llywodraethu a Swyddog Monitro; Harry Dimmack, Swyddog Llywodraethu; Lynne Walters, Swyddog Partneriaethau; Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd; Lisa Evans, Swyddog Safonau a Chraffu; Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu; Rhidian Jones a Carol Thomas, Cyfieithwyr.

(10.00 am - 12.34 pm)

**5 Ymddiheuriadau**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
Ymddiheurodd y Cynghorydd Endaf Edwards am na fedrai ddod i'r cyfarfod.
Hefyd, ymddiheurodd Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi a Pherfformiad am na fedrai ddod i'r cyfarfod.

**6 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011**

Ni ddatgelwyd dim buddiannau personol na buddiannau a oedd yn rhagfarnu.
Roedd y Cynghorydd Rhodri Evans yn dymuno nodi bod ei wraig yn cael ei chyflogi gan yr Awdurdod Lleol.

**7 Cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 20 Medi 2022 a Chynllun Llesiant Lleol Drafft Ceredigion ar gyfer 2023-28.**

Daeth Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Bryan Davies, i'r cyfarfod i gyflwyno'r eitem am y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Roedd Diana Davies a Naomi McDonagh, y Swyddogion perthnasol hefyd yn bresennol.

Esboniodd yr Arweinydd ei bod yn ofynnol, o dan Adran 35 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, i Awdurdodau Lleol sicrhau bod gan eu Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu y pŵer i graffu ar y penderfyniadau a wneir, neu gamau eraill a gymerir, gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer ardal yr Awdurdod Lleol wrth iddo arfer ei swyddogaethau. Roedd adran 39 hefyd yn nodi bod yn rhaid i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus anfon copi o'i Gynllun Llesiant Lleol at Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Awdurdod Lleol.

Roedd y canllawiau statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi a chyhoeddi asesiad o gyflwr lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal heb fod yn hwyrach na blwyddyn cyn iddo gyhoeddi ei Gynllun Llesiant Lleol. Roedd y canllawiau hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cynllun Llesiant Lleol gael ei gyhoeddi heb fod yn hwyrach na 12 mis ar ôl pob etholiad llywodraeth leol cyffredin. Cyhoeddodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ei Asesiad o Lesiant Lleol ar 4 Mai 2022 ac fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 15 Mehefin 2022. Bu'r Asesiad o Lesiant Lleol yn allweddol wrth lywio a sefydlu'r pedwar Amcan Llesiant Lleol y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 7 Mawrth 2022 ac a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 15 Mehefin. Esboniodd yr Arweinydd mai'r amcanion hyn fyddai'r sail i Gynllun Llesiant Lleol nesaf Ceredigion a'i bod fel a ganlyn:

1. Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau economi gynaliadwy sydd o fudd i bobl leol ac yn adeiladu ar gryfderau Ceredigion.
2. Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i leihau anghydraddoldebau yn ein cymunedau ac yn defnyddio atebion cymdeithasol a gwyrdd i wella iechyd corfforol a meddyliol.
3. Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i ddarparu mentrau datgarboneiddio yng Ngheredigion i ddiogelu a gwella ein hadnoddau naturiol.
4. Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i alluogi cymunedau i deimlo'n ddiogel ac yn gysylltiedig a byddwn yn hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol ac yn cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Cytunwyd hefyd y byddai amcan trawsbleidiol i fynd i'r afael â chaledi thlodi yn cael ei ymgorffori yn y cynllun i adlewyrchu goblygiadau'r argyfwng costau byw yn awr ac yn y dyfodol. Cydnabuwyd y byddai gan hyn y potensial i gael effaith ar draws y pedwar piler lles – lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, a byddai gweithio gyda'n gilydd ar draws sefydliadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn helpu i gynnal ffocws ar y maes gwaith hwn.

Dywedwyd wrth Aelodau'r Pwyllgor fod cynnwys y Cynllun Llesiant Lleol drafft ar gyfer 2023-28 wedi'i ddatblygu drwy arolygon wyneb yn wyneb ac arolygon ar-lein, mewnbwn gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a grŵp gorchwyl a gorffen a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion.

Cymeradwyodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gynllun Llesiant Lleol drafft Ceredigion ar gyfer 2023-28 yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Medi, ac yn amodol ar fân newidiadau, byddai ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal yn ei gylch am 12 wythnos; gan ddechrau ar 7 Tachwedd 2022 a dod i ben ar 29 Ionawr 2023. Byddai'r ymatebion a dderbynnir yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cael eu hystyried a byddent yn cyfrannu at Gynllun Llesiant Lleol terfynol Ceredigion, a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y cyfarfod ym mis Mawrth 2023. Byddai'n ofynnol wedyn i'r holl sefydliadau sy'n aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gymeradwyo'r cynllun drwy eu trefniadau llywodraethu arferol cyn y gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus roi cymeradwyaeth derfynol i gyhoeddi'r cynllun ym mis Ebrill 2023.

Dywedodd y swyddogion mai hwn wedyn fyddai'r prif gynllun gwaith a ffocws Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion yn y dyfodol ac y byddai'r Pwyllgor Craffu hwn yn craffu ar ei berfformiad.

Hefyd, cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 20 Medi 2022 gerbron y Pwyllgor.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y pwyntiau canlynol:

- Wrth ymateb i gwestiwn am yr 'Hybiau Cynnes', cadarnhawyd bod Cynllun Grantiau Cymunedol yn bodoli a gallai sefydliadau gwirfoddol nad oeddent yn gwneud elw ymgeisio am y grantiau hyn a chofrestru eu diddordeb mewn agor hybiau cynnes er budd pobl eraill yn y sir. Byddai modd defnyddio nifer o neuaddau pentref at y diben hwn. Roedd grŵp gorchwyl a gorffen yr hybiau cynnes wedi'i sefydlu drwy Is-grŵp Tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac roedd y grŵp yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus drwy'r Is-grŵp Tlodi.
- Wrth ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd y byddai gwaith i hybu ac annog cyfraniadau yn cael ei wneud yn ystod 12 wythnos yr ymgynghoriad.
- Wrth ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd yr Arweinydd ei fod yn fodlon fod yr holl sefydliadau yn cael eu cynrychioli'n briodol yng nghyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Wrth ymateb i gwestiwn, dywedodd Naomi McDonagh wrth yr Aelodau fod Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru yn gweithio gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ynghyd â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin fel rhan o glwstwr gorllewin Cymru i gynorthwyo'r Byrddau â'u gweithgareddau ymgysylltu. Nodwyd bod ymgysylltu yn rhan allweddol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chyfeiriodd Naomi at enghraifft lle'r

oeddent wedi cynorthwyo â'r gwaith o gynllunio gweithdy ar gyfer disgyblion ysgol fel rhan o'r ymgynghoriad. Cynorthwywyd ag elfennau eraill hefyd wrth gyfrannu at y broses.

- Yn dilyn cwestiwn, cadarnhawyd bod Ceredigion ar y trywydd cywir ac mai'r disgwyl oedd y byddai'r ddogfen yn cael ei chyhoeddi ym mis Mai 2023.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhellion canlynol:

i. Derbyn cofnodion drafft cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar 20 Medi 2022

ii. Derbyn fersiwn drafft Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion ar gyfer 2023-28 ac ystyried pa adborth, os o gwbl, yr hoffai'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ei roi yn rhan o'r ymgynghoriad presennol ar y Cynllun.

Cytunodd yr Aelodau i dderbyn y ddau argymhelliad er mwyn cyflawni eu rôl o gadw golwg ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Arweinydd a'r Swyddogion am gyflwyno'r wybodaeth ac am ateb pob cwestiwn.

**8 Adroddiad Monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2021-22**

Croesawyd y Cynghorydd Catrin MS Davies, Aelod Cabinet a Cathryn Morgan i gyflwyno adroddiad monitro'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2021-22.

Roedd Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol I ystyried anghenion pob unigolyn yn ein gwaith bob dydd. Roedd y Ddeddf yn cynnwys Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Penodol i Gymru a oedd yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor bennu Amcanion Llesiant mewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol, ac roedd yn rhaid adolygu'r cynllun bob pedair blynedd.

Rhoddir sylw i'r modd y caiff y Gymraeg ei hybu a'i defnyddio ym Mesur y Gymraeg 2011, yn hytrach na'r Ddeddf Cydraddoldeb. Fodd bynnag, roeddem yn ystyried gofynion y Gymraeg ochr yn ochr â nodweddion gwarchodedig y Ddeddf Cydraddoldeb er mwyn hyrwyddo dull cyfannol.

Roedd cynllun gweithredu'n sicrhau bod Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 y Cyngor yn cael ei gyflawni, ac roedd wedi'i rannu i 5 Amcan Cydraddoldeb.

Dywedwyd mai hwn oedd yr ail adroddiad blynyddol ynghylch y cynnydd a wnaed o ran Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020- 2024. Roedd y system lliwiau BRAG yn dangos pa mor dda yr oedd y

camau gweithredu'n perfformio neu'n cael eu cyflawni, o gymharu â'r llynedd.

Tynnwyd sylw at y pwyntiau canlynol:

- Cyflwynwyd asesiad risg beichiogrwydd diwygiedig. Roedd yr asesiad risg bellach yn adlewyrchu'n well canllawiau presennol Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch pobl feichiog yn y gweithle.
- Roedd y tîm Cydlyniant Cymunedol rhanbarthol yn parhau i weithio gyda phartneriaid i annog pobl i godi ymwybyddiaeth am droseddau casineb ac i adrodd am unrhyw achosion. Cynhaliwyd digwyddiadau ac ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth i fynd i'r afael â throseddau casineb, gan gynnwys Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb, digwyddiad 'Golau Glas' ar gyfer ffoaduriaid, Sesiynau Peilot Casineb Ar-lein a Hyfforddiant Small Steps ynghylch yr Asgell Dde.
- Etholwyd Lloyd Warburton, disgybl yn Ysgol Penglais, fel yr Aelod newydd o Senedd Ieuenctid Cymru dros Geredigion ac roedd hefyd yn aelod gweithgar o Gyngor Ieuenctid Ceredigion.
- Bu'r Gofrestr Tai Hygyrch a'r Polisi Tai Hygyrch ar waith ers mis Mehefin 2016. O ganlyniad, roedd nifer y bobl a ddefnyddiai'r gofrestr tai hygyrch ac a dderbyniai gynigion yn dilyn hynny yn parhau i gynyddu.
- Roedd perfformiad disgyblion Anghenion Addysgol Arbennig / Anghenion Dysgu Ychwanegol Ceredigion yn dda. Cafwyd cynnydd yn nifer y disgyblion a oedd wedi cael diagnosis o awtistiaeth ddifrifol yn y blynyddoedd cynnar, a'r disgyblion oedd ag anghenion cymhleth.
- Roedd pandemig COVID-19 wedi cael effaith mawr ar y cynnydd yr oedd dysgwyr sydd â Saesneg fel Iaith Ychwanegol yn ei wneud, er ein bod ni wedi mynd y tu hwnt i'r targedau: 9.5% o ddisgyblion wedi symud i fyny lefel (targed = 5%). 3.4% wedi gwneud cynnydd o 2 lefel neu fwy (targed = 1%). 77.7% o ddisgyblion sydd â Saesneg fel Iaith Ychwanegol ar god C-E. O'r rhain roedd 56.9% yn gymwys (D) neu'n rhugl (E).

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd yr Aelodau i dderbyn Adroddiad Monitro Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor ar gyfer 2021-22, gan argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r adroddiad ar 6 Rhagfyr 2022.

**9 Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2022 ac Adroddiad Cydraddoldeb yn y Gweithlu 2022**

Croesawyd Arweinydd y Cyngor ynghyd â Geraint Edwards, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol i gyflwyno'r Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2022 a'r Adroddiad Cydraddoldeb yn y Gweithlu 2022.

Roedd yn ofynnol i Gyngor Sir Ceredigion, ynghyd â'r holl awdurdodau cyhoeddus rhestredig yng Nghymru, adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau a chyhoeddi gwybodaeth am y gweithlu yn flynyddol.

Roedd Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 2011, a oedd yn rhan o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi amrywiaeth o ddata am ein gweithlu o dan bob un o'r nodweddion gwarchodedig a nodir yn y Ddeddf Cydraddoldeb.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y canlynol:

- Wrth ymateb i gwestiwn ynglŷn ag annog mwy o fenywod i ymgeisio am rolau uwch swyddogion, dywedodd y Swyddog wrth yr Aelodau fod disgwyl y byddai'r Polisi Cydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith yn cael ei adolygu yn gynnar yn 2023 ac y byddai'n cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar yr adeg honno.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd yr Aelodau i dderbyn yr Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2022 a'r Adroddiad Cydraddoldeb yn y Gweithlu 2022.

**10 Adroddiad Hunanasesu 2021/22**

Croesawyd yr Arweinydd unwaith eto i gyflwyno Adroddiad Hunanasesu 2021/22. Roedd Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn disodli Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 gynt ac yn cyflwyno cyfundrefn berfformiad newydd ar gyfer Prif Gynghorau yn seiliedig ar Hunanasesu.

Bwriad y gyfundrefn berfformiad newydd oedd adeiladu a chefnogi diwylliant lle'r oedd cynghorau yn ceisio gwella a gwneud yn well yn barhaus ym mhopeth a wnânt, heb ystyried pa mor dda yr oeddent yn perfformio eisoes. Roedd y Ddeddf yn disgwyl y byddai'r cynghorau bob amser yn ymdrechu i gyflawni mwy a cheisio sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl a chymunedau lleol. Un ffordd o wneud hyn oedd herio'r sefyllfa bresennol yn barhaus a gofyn cwestiynau ynghylch sut yr oeddent yn gweithredu.

Roedd y Ddeddf yn cyflwyno 5 dyletswydd benodol ar gyfer Cynghorau:

- Y ddyletswydd i adolygu perfformiad yn barhaus
- Y ddyletswydd i ymgynghori ar berfformiad
- Y ddyletswydd i adrodd ar berfformiad
- Y ddyletswydd i drefnu asesiad o berfformiad gan banel
- Y ddyletswydd i ymateb i adroddiad ar asesiad o berfformiad gan banel

Byddai'r hunanasesiad yn canolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach na phrosesau ac roedd disgwyl i awdurdodau lleol arfer ymagwedd wahanol at asesu eu perfformiad i'r hyn ydoedd cynt. Byddai hyn yn gofyn am fwy o fyfyrio ar yr hunan.

Ers mis Mai 2022 bu Cyngor Sir Ceredigion yn cynnal rownd gyntaf y broses Hunanasesu ac roedd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu wedi chwarae rhan ganolog ynddi:

• Ar 15 Mehefin 2022 cyflwynwyd y broses Hunanasesu a ddatblygwyd i'w defnyddio yng Ngheredigion i'r Pwyllgor. (roedd dull y Cyngor yn defnyddio set o Brif Lwybrau Ymholi neu gwestiynau allweddol i helpu i ganolbwyntio ar ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau).
• Ar 29 Gorffennaf 2022 cynhaliwyd gweithdy gyda'r Pwyllgor i gofnodi canfyddiadau Aelodau ar berfformiad y Cyngor a chyfleoedd i wella fel y gellid cyfrannu'r wybodaeth at y Matrics Hunanasesu. (tabl oedd y Matrics a oedd yn casglu ynghyd yr holl dystiolaeth, heriau'r dyfodol, y gweithredu arfaethedig a'r sgoriau).
• Ar 10 Awst 2022 cynhaliwyd gweithdy arall gyda'r Pwyllgor i adolygu'r sgoriau drafft a'r Matrics Prif Lwybrau Ymholi.

Ers hynny, defnyddiwyd y dystiolaeth a gasglwyd i gynhyrchu Adroddiad Hunanasesu, a oedd i'w weld yn Atodiad 3. Hwn oedd allbwn allweddol y broses Hunanasesu ac roedd yn amlinellu'r modd yr oedd y Cyngor yn perfformio ar hyn o bryd a'r camau yr oedd yn bwriadu eu cymryd wrth symud ymlaen.

Roedd Adroddiad Hunanasesu 2021/22 yn cyflawni gofynion:
• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – wrth osod ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol ac adolygu'r cynnydd a wnaed o ran yr amcanion hyn.
• Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 – y ddyletswydd i adolygu perfformiad yn barhaus, i ymgynghori ar berfformiad, i adrodd ar berfformiad, i drefnu asesiad o berfformiad gan banel ac i ymateb i adroddiad ar asesiad o berfformiad gan banel.

Roedd cyfrifoldeb statudol ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i ystyried yr Adroddiad Hunanasesu a gwneud argymhellion ar y canfyddiadau a'r camau yr oedd y Cyngor yn bwriadu eu cymryd. Ystyriwyd yr Adroddiad yn y cyfarfod ar 27 Medi 2022 a chymeradwywyd yr adroddiad fel y gellid mynd ati i'w gyhoeddi. Ni wnaed argymhellion ffurfiol i newid y casgliadau na'r camau yr oedd y Cyngor yn bwriadu eu cymryd. Fodd bynnag, gofynnwyd am fân newidiadau o ran y fformatio a chodwyd nifer o gwestiynau ar sut y gellid gwella'r trefniadau adrodd yn ystod y rownd nesaf. Cafodd y newidiadau hyn eu gwneud ac roeddent i'w gweld yn Atodiad 3. Ar ôl i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gymeradwyo'r adroddiad, cafodd y broses o gynhyrchu Adroddiad Hunanasesu 2021/22 ei chwblhau ac ni fyddai modd ei newid rhagor.

Dywedwyd wrth Aelodau'r Pwyllgor fod disgwyl i'r Adroddiad Hunanasesu fynd gerbron y Cabinet ar 6 Rhagfyr a'r Cyngor ar 15 Rhagfyr, cyn y byddai'n cael ei gyflwyno i'r Gweinidogion, Estyn ac Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i gyhoeddi ar y wefan.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y canlynol:

- Dylid sicrhau bod y buddion cymunedol yn parhau a'u bod yn rhai gwerthfawr.

- Dylid cefnogi contractwyr lleol i gydweithio ar dendrau ar gyfer contractau mwy o faint.
- Awgrymodd yr Aelodau y dylid ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu gwasanaethau hyd braich.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i dderbyn Adroddiad Hunanasesu 2021/22 gan gynnwys yr Adolygiad Blynyddol o Berfformiad a'r Amcanion Llesiant.

**11 Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog, fel y'i nodwyd yn Neddf y Lluoedd Arfog 2021**

Croesawyd y Cynghorydd Paul Hinge, yr Aelod Eiriolwr dros y Lluoedd Arfog i gyflwyno'r adroddiad. Roedd y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet, wedi ymddiheuro am na fedrai fod yn bresennol yn y cyfarfod.

Dywedodd y Cynghorydd Hinge wrth y Pwyllgor, yn sgil cymal 8 Deddf Lluoedd Arfog 2021, fod gofyniad newydd ar rai cyrff cyhoeddus, gan gynnwys Awdurdodau Lleol, i roi sylw dyladwy i egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog. Ychwanegodd y byddai angen i'r Cyngor gydymffurfio â'r gyfraith newydd a ddaeth i rym ar 22 Tachwedd 2022. Y swyddogaethau a oedd yn berthnasol i'r cyngor o ran y ddeddf hon oedd tai, addysg a'r gwasanaethau cyffuriau ac alcohol.

Roedd Deddf y Lluoedd Arfog 2021 yn ymgorffori Cyfamod y Lluoedd Arfog yn gyfraith ac roedd hyn yn gosod rhwymedigaeth gyfreithiol ar gyrff cyhoeddus i sicrhau nad oedd aelodau'r lluoedd arfog, milwyr wrth gefn a'u teuluoedd dan anfantais pan fyddent yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus. Derbyniodd Deddf y Lluoedd Arfog 2021 Gydsyniad Brenhinol ar 15 Rhagfyr 2021.

Cyflwynwyd y Canllawiau Statudol drafft ynghylch Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog gerbron Senedd y Deyrnas Unedig ym mis Gorffennaf 2022.

Cafodd y Pwyllgor wybod am y sefyllfa bresennol. Wrth gyflawni ei ymrwymiadau presennol, roedd y Cyngor yn rhoi sylw dyladwy i ofynion Cymuned y Lluoedd Arfog, ac roedd wedi ceisio adeiladu'n gadarnhaol ar ei ymrwymiad ers gwneud ei addewid cychwynnol. Roedd hyn wedi arwain at wneud gwelliannau uniongyrchol i bolisïau'r Cyngor fel rhan o'i ymrwymiad i'r Cyfamod. Roedd hyn i'w weld yn glir yn y polisi cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a oedd yn cefnogi opsiynau gweithio hyblyg. Roedd y polisi hwn hefyd yn cydnabod yr angen clir i aelodau'r lluoedd arfog a milwyr wrth gefn gael cyfnodau awdurdodedig ychwanegol o absenoldeb i gefnogi eu hymrwymiadau ychwanegol. Rhoddodd y Cynghorydd Hinge ddwy enghraifft ardderchog o sefyllfaoedd lle'r oedd yr Awdurdod wedi cefnogi milwyr wrth gefn a'u teuluoedd yn ddiweddar.

Hefyd, trwy ddarparu swyddogaeth ysgrifenyddiaeth, roedd Cyngor Sir Ceredigion wedi arwain y gwaith o sefydlu Fforwm Cymunedol Lluoedd Arfog Ceredigion a oedd yn gweithio gydag amrywiaeth eang o bartneriaid i godi proffil Cymuned y Lluoedd Arfog yn barhaus. Trwy ymyriadau uniongyrchol a

gweithio mewn partneriaeth, roedd Cyngor Sir Ceredigion wedi cadarnhau ei ymrwymiad i Gynllun Cydnabod Cyflogwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn ac roedd y gwaith cadarnhaol hwn wedi cael ei gydnabod gan Wobrau Arian ac Efydd.
Yn ogystal â'r uchod, roedd trefniadau ar y gweill i hyrwyddo hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ychwanegol drwy gyrsiau ar-lein a fyddai'n paratoi'r gwasanaethau ar gyfer y ddeddfwriaeth hon. Byddai hyn yn cael ei hyrwyddo drwy'r Tîm Dysgu a Datblygu. Byddai adolygu polisïau Addysg a Thai y Cyngor hefyd yn cael ei ystyried er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â Chyfamod y Lluoedd Arfog. Byddai'r Canllawiau Statudol yn cael eu hystyried ynghyd ag enghreifftiau o gyngor ac arferion da. Byddai'r Cyngor yn defnyddio'r rhain i wella'r ddarpariaeth ymhellach ac i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

**CAMAU ARFAETHEDIG**
Yn ogystal â'r gwaith yr oedd y Cyngor eisoes yn ei wneud, cynigiwyd y byddai'r camau ychwanegol canlynol yn cael eu cymryd wrth baratoi ar gyfer y ddyletswydd:

- Archwilio cyfleoedd i wella'r prosesau a ddefnyddir gan y gwasanaethau i gasglu data. Byddai Swyddog Cyswllt Rhanbarthol y Lluoedd Arfog yn darparu cyngor am y categorïau y byddai angen i'r gwasanaethau unigol eu defnyddio.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd cyllid grant ar gael i blant (hyd at £2,000 y plentyn) yn ddibynnol ar anghenion.
- Byddai gweithwyr ac aelodau etholedig yn cael eu hannog i wneud trefniadau ar CERINET i fynd i'r sesiynau codi ymwybyddiaeth am Gyfamod y Lluoedd Arfog.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i nodi'r rhwymedigaethau a oedd wedi'u cynnwys yn Neddf y Lluoedd Arfog 2021.

**12 Adroddiad ar yr adolygiad o Bolisi RIPA ac Arolygiad IPCO (Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio)**
Cyflwynodd Elin Prysor, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol a'r Swyddog Monitro adroddiad ynghylch yr adolygiad o Bolisi RIPA ac Arolygiad Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (IPCO).

Nodwyd bod y Pwyllgor wedi derbyn yr adroddiad blaenorol ar 26 Medi 2022.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod Paragraff 4.47 *Cod Ymarfer diwygiedig y Swyddfa Gartref ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo* (2018) yn nodi y dylai aelodau etholedig awdurdod lleol adolygu defnydd yr awdurdod o RIPA a phennu'r polisi unwaith y flwyddyn. Adroddwyd ar Weithgarwch RIPA yn yr adroddiad blaenorol i'r pwyllgor hwn ar 26 Medi 2022. Cafodd diwygiadau i Bolisi RIPA eu cyflwyno'n fwyaf diweddar i'r pwyllgor hwn ar 15 Medi 2022.

Yn y cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 26 Medi 2022, adroddwyd bod cyfarfodydd wedi'u cynnal gyda'r IPCO yn rhan o'i arolygiad. Yn dilyn y cyfarfodydd hyn, roedd y Cyngor wedi derbyn llythyr oddi wrth yr IPCO yn crynhoi prif ganfyddiadau'r arolygiad ac roedd y llythyr hwnnw ynghlwm wrth bapurau'r agenda. Mewn ymateb i'r trafodaethau a gafodd eu cynnal yn ystod yr arolygiad ynghylch amlder dim gweithgarwch o ran gwyliadwriaeth ar-lein, crëwyd templed e-bost newydd a fyddai'n cael ei ddefnyddio wrth wneud cais i Swyddogion Dynodedig am adroddiadau chwarterol ar weithgarwch gwyliadwriaeth ar-lein. Bwriad y templed diwygiedig hwn oedd rhoi mwy o eglurder o ran y wybodaeth y gofynnir amdani. Roedd y templed hwn hefyd ynghlwm wrth bapurau'r agenda. Dywedwyd hefyd fod yr IPCO wedi cyhoeddi eu cylchlythyr chwarterol ar gyfer Hydref 2022 a'i fod ar gael i'w weld ar eu gwefan.

Yn dilyn trafodaeth, gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor:

**1)** Nodi cynnwys y copi drafft diwygiedig o Bolisi Corfforaethol RIPA a'r Ddogfen Weithdrefnau,
2) Nodi cynnwys Adroddiad Arolygiad IPCO,
3) Nodi cynnwys ymateb yr Uwch-swyddog Cyfrifol i Adroddiad Arolygiad IPCO,
4) Nodi cynnwys y Cais E-bost wedi'i ddiweddaru am Weithgarwch RIPA,
a,
5) Nodi cynnwys Cylchlythyr Chwarterol IPCO ar gyfer Hydref 2022.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i nodi a derbyn argymhellion 1-5 a restrir uchod er mwyn sicrhau bod y pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf o ran y diwygiadau i Bolisi RIPA a chanlyniad Arolygiad RIPA ar y Cyngor a gynhaliwyd gan IPCO yn ddiweddar.

**13 Adroddiad Diogelu Grwp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS Chwarter 1 2022-23**

Roedd Alun Williams, yr Aelod Cabinet, yn bresennol i gyflwyno Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS Chwarter 1 2022-23.

Yn ystod trafodaethau, amlygwyd y pwyntiau allweddol canlynol:

- Yn Chwarter 1, roedd gostyngiad yn nifer y cysylltiadau/adroddiadau a dderbyniwyd o'i gymharu â Chwarter 4 gyda 943 o gysylltiadau/adroddiadau wedi'u derbyn yn Chwarter 1 a 1010 wedi'u derbyn yn Chwarter 4.
- Fodd bynnag, roedd cynnydd yn nifer y cysylltiadau/adroddiadau a aeth ymlaen i angen cymryd camau o dan y Gweithdrefnau Amddiffyn Plant, 221 yn Chwarter 1 o'i gymharu â 154 yn Chwarter 4.
- Canran yr adroddiadau a aeth ymlaen i Drafodaeth Strategaeth yn y chwarter hwn oedd 23.4% o'i gymharu â 21.8% yn

Chwarter 4. Aeth 11.5% o'r rhain ymlaen i ymholiad Adran 47 o'i gymharu â 6.49% yn Chwarter 4, ac aeth 1.4% ymlaen i Gynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant o'i gymharu â 0.99% yn Chwarter 4.

- Cyfanswm y plant a roddwyd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn y chwarter hwn yn dilyn Cynhadledd oedd 12, o'i gymharu â 21 yn y chwarter blaenorol.
- Cyfanswm y plant a dynnwyd oddi ar y gofrestr oedd 14 o'i gymharu â 12 yn y chwarter blaenorol.
- Cyfanswm yr ymholiadau Adran 47 a gwblhawyd yn ystod y chwarter hwn oedd 109, cafodd 92 eu cynnal ar y cyd â'r Heddlu, a chafodd 17 eu cynnal fel Asiantaeth Sengl Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn Chwarter 4 nifer yr ymholiadau Adran 47 a gwblhawyd oedd 65, cafodd 64 eu cynnal ar y cyd â'r Heddlu.
- Y prif gategori o gam-drin a arweiniodd at ymholiad Adran 47 yn Chwarter 1 oedd cam-drin corfforol (47) ac yna cam-drin/camfanteisio'n rhywiol(44), o'i gymharu â Chwarter 4 lle mai cam-drin corfforol (22) oedd yr ail brif gategori, a cham-drin/camfanteisio'n rhywiol (29) oedd y prif gategori o gam-drin.
- Y prif ffactorau risg ar gyfer y 40 o blant oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ar 30/06/22 oedd cam-drin domestig (38), iechyd meddwl rhieni (28), troseddau treisgar oedolion (28), troseddau treisgar gan oedolion (27), rhieni yn camddefnyddio sylweddau/camddefnyddio alcohol (27), a diffyg cydweithrediad rhieni â'r Cynllun Amddiffyn Plant (17).
- O ran Diogelu Oedolion, bu gostyngiad yn nifer yr oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin a/neu eu hesgeuluso, gyda 120 yn Chwarter 4 a 107 yn Chwarter 1, a'r adroddiadau gwirioneddol a dderbyniwyd oedd 120 yn Chwarter 1 ac 154 yn Chwarter 4.
- Y categori o gam-drin yr adroddwyd amdano fwyaf yn ystod y chwarter hwn oedd cam-drin emosiynol/seicolegol, gyda 58 o adroddiadau yn datgan mai hwn oedd y prif gategori o gam-drin. Y categori hwn o gam-drin oedd y prif gategori o gam-drin a adroddwyd yn Chwarter 4 hefyd lle cafwyd 61 o adroddiadau. Esgeulustod oedd yr ail brif gategori o gam-drin a adroddwyd (46), yna cam-drin ariannol (34) a cham-drin corfforol. Roedd 9 adroddiad o gam-drin rhywiol.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd Aelodau’r Pwyllgor i nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefel o weithgarwch o fewn yr Awdurdod Lleol fel bod trefniadau llywodraethu’r Awdurdod Lleol a’r asiantaethau sy’n bartneriaid yn cael eu monitro.

Bu i Aelodau’r Pwyllgor longyfarch Elizabeth Upcott a’i thîm am eu gwaith caled.

**14** **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny**

Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cydlynu a gynhaliwyd ar 27 Hydref 2022 yn gywir ac nid oedd dim materion yn codi o'r cofnodion hynny.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod i'r cyfarfod ac am eu hamynedd. Ymddiheurodd am y problemau technegol a gafwyd yn ystod y cyfarfod. Gofynnodd y Cadeirydd i Arweinydd a Dirprwy Arweinydd y Cyngor gyfeirio pryderon y Pwyllgor at y person/pobl briodol gan fod problemau technegol wedi amharu ar y cyfarfod 14 o weithiau yn ystod y bore.

**15** **Diweddariad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac ystyried y Blaenraglenni Gwaith drafft**

Rhoddodd pob Cadeirydd ddiweddariad yn eu tro am flaenraglenni gwaith eu Pwyllgorau.

Gofynnodd y Cynghorydd Keith Evans, y Cadeirydd, am gynnwys diweddariad ynglŷn â'r System Hybrid ar agenda cyfarfod y Pwyllgor a fyddai'n cael ei gynnal ar 18 Ionawr 2023. Cadarnhawyd hefyd y byddai adroddiad am Gylch Caron yn cael ei gyflwyno yn yr un cyfarfod.

Diolchodd y Cadeirydd i Aelodau'r Pwyllgor am ddod i'r cyfarfod a daeth y cyfarfod i ben am 12:34pm. Hefyd, dymunodd yn dda i bawb dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a gynhaliwyd ar Dydd Mercher, 18 Ionawr 2023**

**Cadeirydd:________________**

**Dyddiad:__________________**